Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Newport Denture Clinic, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80364-717-3

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o’r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom

2. Crynodeb o'r arolygiad

3. Yr hyn a ganfuom

   - Ansawdd profiad y claf

   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Newport Denture Clinic, Casnewydd ar 17 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i lunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i ddarparu gwasanaethau i gleifion a oedd yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol ac urddasol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd sylwadau a gawsom gan gleifion yn yr holiaduron i gleifion yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddynt wedi ei dderbyn.

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Canfuom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion, ond nodwyd gennym fod angen gwelliant yn hyn o beth.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella’r canlynol:

- Mae angen sefydlu system addas ar gyfer gwirio cynnwys y pecyn cymorth cyntaf i nodi eitemau y mae angen eu hadnewyddu
- Mae angen dyfeisio a gweithredu rhaglen archwilio rheolaidd fel rhan o'r broses sicrhau a gwella ansawdd
- Dylai cofnodion gynnwys mwy o fanylion am archwiliadau y tu mewn a’r tu allan i’r geg ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Canfuom fod gwaith tîm effeithiol yn y practis ac roedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella’r canlynol:

- Mae angen adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r practis fel eu bod yn adlewyrchu’r trefniadau yn y practis
- Rhaid adolygu a diweddaru'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn ôl yr angen
- Rhaid i'r personau cofrestredig ymgyfarwyddo â gofynion y rheoliadau ar gyfer hysbysu AGIC am ddigwyddiadau penodol
- Rhaid arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC y rheolwr cofrestredig fel ei bod yn amlwg ar y safle.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o chwe holiadur wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Ym mhob cam o'r driniaeth, esboniwyd y dewis o'r hyn oedd ar gael i mi yn ofalus"*
> *"Mae Steve a Rehana yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar. Does dim byd yn ormod o drafferth"*
> *"Cyfeillgar a phroffesiynol"*
> *"Da iawn. Cwrtais a pharchus"*

### Cadw'n iach

**Diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom fod deunydd hybu iechyd perthnasol wedi'i arddangos ym man aros y practis er mwyn i gleifion ei ddarllen. Efallai y bydd y person cofrestredig am ystyried cynyddu faint o ddeunydd hybu iechyd sydd ar gael yn y practis.

Cadarnhaodd pob claf a ddychwelodd holiadur AGIC wedi'i gwblhau fod tîm y practis wedi siarad â nhw am gadw eu ceg yn iach a dannedd gosod yn lân.

### Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig a rheolwr cofrestredig y practis nad oedd gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael mewn ieithoedd na fformatau gwahanol fel mater o drefn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gellid sicrhau bod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras.

Cadarnhaodd pob claf a ddychwelodd holiadur AGIC wedi'i gwblhau fod tîm y practis wedi egluro pethau iddynt yn ystod eu hapwyntiadau mewn ffordd y gallent ei deall.

**Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir yn y practis ar gael i gleifion mewn taflen wybodaeth ysgrifenedig i gleifion. Gwelsom fod copïau o'r rhain ar gael yn rhwydd ym man aros y practis fel y gallai cleifion eu darllen a mynd â hwy i ffwrdd. Roedd rhestr brisiau ar gyfer y gwahanol wasanaethau a ddarperir gan y practis hefyd wedi'i harddangos yn amlwg yn y man aros.

Gwelsom hefyd fod oriau agor a rhif ffôn cyswllt y practis wedi'u harddangos a bod cleifion yn gallu eu gweld o'r tu allan. Er bod enw'r Technegydd Deintyddol Clinigol wedi'i arddangos yn glir, nid felly rhif cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Yn ogystal, gwelsom hefyd fod gwybodaeth i gleifion am y rhagofalon a gyflwynwyd gan y practis mewn ymateb i COVID-19 wedi'i harddangos yn glir ger mynedfa'r safle.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**

Disgrifiodd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig drefniadau addas i sicrhau y gallai cleifion drefnu apwyntiad i gael eu gweld. Gellid gwneud apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ddychwelodd holiadur AGIC wedi'i gwblhau eu bod yn ei chael yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Gofal unigol

**Hawliau'r bobl**

Gwelsom fod polisi cyfleoedd cyfartal cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu'n llawn y trefniadau yn y practis ar adeg ein harolygiad.

Gwelsom fod y safle'n hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd a bod yr holl gyfleusterau clinigol wedi'u lleoli ar y llawr daear.

**Gwrando a dysgu o adborth**

Gwelsom fod polisi cwynion cyfredol ar waith. Gwelsom hefyd fod trefniadau ar waith i gofnodi cwynion llafar ac ysgrifenedig. Cadarnhaodd y personau cofrestredig nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law.

Roedd gwybodaeth am sut y gall cleifion roi adborth neu wneud cwyn ar gael yn y man aros. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth a arddangoswyd ar y poster yn gyson â'r wybodaeth yn y daflen wybodaeth i gleifion. Er enghraifft, roedd manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys ar y poster ond nid yn y daflen wybodaeth i gleifion, roedd yr amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ond nid ar y poster ac roedd y poster ond yn cyfeirio at wneud cwyn ar lafar ac nid sut i wneud cwyn ysgrifenedig.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Gwelsom fod y safle i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn allanol ac yn fewnol. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion a oedd yn ymweld â'r practis.

Gwelsom fod asesiad risg ysgrifenedig wedi'i gwblhau gan y darparwr cofrestredig er mwyn nodi peryglon posibl, ond nid oedd dyddiad wedi'i nodi arno.

Gwelsom fod polisïau cyfredol amrywiol yn ymwneud â rheoli risg ac iechyd a diogelwch ar waith. Roedd gwybodaeth am gyfrifoldebau'r darparwr cofrestredig a'r staff sy'n gweithio yn y practis o ran iechyd a diogelwch wedi'i harddangos yn glir yn y practis.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith o ran diogelwch tân.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y darparwr cofrestredig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

**Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i COVID-19 er mwyn helpu i leihau lledaeniad y feirws.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a diheintio mewn modd effeithiol. Roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar waith ac roedd y personau cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau.

**Rheoli meddyginiaethau**

Cadarnhaodd y person cofrestredig i AGIC nad oedd unrhyw feddyginiaethau yn cael eu storio yn y clinig. Fodd bynnag, roedd meddyginiaeth heb bresgripsiwn yn cael ei storio gyda'r pecyn cymorth cyntaf. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn argymell 'na ddylid cadw tabledi a meddyginiaethau mewn cynhwysydd cymorth cyntaf'. Dylai'r person cofrestredig ofyn am gyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn hyn o beth a phenderfynu pa eitemau y mae angen eu cynnwys yn y pecyn.

Yn ogystal, gwnaethom nodi fod rhai o'r eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben. Er bod rhestr wirio ar waith, roedd yn amlwg nad

oedd y system hon yn gwbl effeithiol o ran nodi pryd yr oedd eitemau wedi dod i ben a bod angen eu hadnewyddu.

Roedd offer ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio pe bai argyfwng claf (llewygu). Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**

Gwelsom fod polisïau cyfredol ar waith mewn perthynas â diogelu. Fodd bynnag, roeddynt yn cyfeirio at staff arweiniol nad oeddynt yn gweithio yn y practis.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig, pe bai pryder diogelu'n cael ei nodi, byddai cyngor yn cael ei geisio gan y tîm diogelu lleol perthnasol. Er bod y manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol wedi'u rhestru yn y polisi, cawsant eu diweddaru ddiwethaf yn 2018.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Nid oedd offer pelydr-X nac offer diagnostig arall yn cael eu defnyddio yn y practis.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer derbyn cleifion a darparu gwasanaethau y gellir eu darparu yn y practis. Roedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Dywedodd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig fod adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio fel y system ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Nid oedd unrhyw archwiliadau eraill wedi cael eu cynnal ac nid oedd rhaglen archwilio ar waith.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf bapur, a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel yn y practis.

**Cadw cofnodion**

Gwnaethom archwilio sampl ar hap o gofnodion deg claf. Roedd y rhain yn cynnwys digon o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y Technegydd Deintyddol Clinigol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys mewn perthynas ag archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli clir ar waith ac roedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis.

Disgrifiwyd trefniadau gwaith tîm effeithiol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig eu bod yn gweithio'n agos ac yn cael trafodaethau dyddiol ynghylch materion yn ymwneud â gwaith. O ystyried mai'r unig staff sy'n gweithio yn y practis oedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, dywedwyd wrthym na chynhelir cyfarfodydd tîm ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod cofnod yn cael ei wneud pan fydd newidiadau i bolisïau neu arferion yn cael eu trafod a'u cytuno i'w harchwilio.

Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion ar gael a oedd yn nodi gwybodaeth am y practis. Fodd bynnag, nid oeddynt wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd tystysgrif cofrestru AGIC y darparwr cofrestredig wedi'i harddangos yn glir ar y safle. Roedd tystysgrif y rheolwr cofrestredig ar gael ond nid oedd yn cael ei harddangos.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith. Gwnaethom archwilio sampl ohonynt a chanfod nad oedd y rhai a oedd yn ymwneud â diogelu, dadebru, cyfleoedd cyfartal a chyfarfodydd tîm yn adlewyrchu'r trefniadau yn y practis.

Nid oedd y personau cofrestredig yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran hysbysu AGIC am ddigwyddiadau penodol o dan y rheoliadau.

## Y gweithlu

Yr unig staff a oedd yn gweithio yn y practis oedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig. Dywedwyd wrthym nad yw staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Roedd polisi recriwtio ar waith; fodd bynnag, nid oedd hwn yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau. Nid oedd y darparwr cofrestredig wedi cynnal arfarniad o’r rheolwr cofrestredig arfarniad yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn wedi’i briodoli i'r ffaith y bu’r practis ar gau oherwydd COVID-19. Yn fuan ar ôl ein harolygiad, cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod hyn wedi'i gwblhau.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon a nodwyd ar unwaith | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Newport Denture Clinic

**Dyddiad yr arolygiad:** 17 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oes angen cynllun gwella ar unwaith | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Newport Denture Clinic

**Dyddiad yr arolygiad:** 17 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae’n ofynnol i’r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion mewn fformatau gwahanol yn unol â’u hanghenion a’u dewisiadau. | Rheoliad 12 | Taflen clinig ar gael yn Gymraeg.<br><br>Gweithdrefn gwyno yn Gymraeg wedi'i arddangos yn yr ystafell aros.<br><br>Rheolwr AGIC yn rhugl yn Wrdw (Pacistan ac India) ac mae Google Translate ar gael.<br><br>Gellir trefnu bod holl ddeunyddiau'r clinig ar gael ar ffurf print bras neu drwy iPad neu liniadur ar gyfer pobl â golwg rhannol. | Mr S Reynolds | Wedi’i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth am sut y gall cleifion wneud cwyn yn gyson yn yr holl ddogfennau / gwybodaeth berthnasol a arddangosir ar gyfer cleifion. | Rheoliad 21 | Rwyf wedi ychwanegu manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol at y daflen wybodaeth i gleifion.<br><br>Rwyf wedi ychwanegu'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion ysgrifenedig at y poster yn ein cyntedd a sut i wneud cwyn ysgrifenedig.<br><br>(Lluniau) | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod asesiadau risg ysgrifenedig yn dangos pryd y cawsant eu cynnal, eu hadolygu neu eu diweddaru. | Rheoliad 16 | Mae asesiadau risg wedi cael eu cynnal a'u llofnodi (tystiolaeth ffotograffig amgaeedig).<br><br>Rwyf wedi creu hysbysiad atgoffa ar fy iPhone i gynnal asesiadau risg newydd bob 12 mis. | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau:<br><br>• bod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf wedi'i bennu gan ystyried | Rheoliad 16 | Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi na ddylid cadw meddyginiaethau a thabledi mewn pecyn cymorth cyntaf. Rwyf wedi tynnu'r rhain | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>• bod system addas ar waith ar gyfer gwirio cynnwys y pecyn cymorth cyntaf yn rheolaidd ac i adnewyddu eitemau coll neu rai sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes. | | allan ac unrhyw gynnwys sydd wedi dod i ddiwedd ei oes.<br><br>Rwyf wedi prynu pecyn cymorth cyntaf newydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gwneud nodyn o ddyddiadau diwedd oes y cynnwys.<br><br>Rwyf wedi gosod nodyn atgoffa tri mis ar fy iPhone a gwneud nodyn yn nyddiadur y clinig i wirio cynnwys a dyddiadau diwedd oes y pecyn.<br><br>(Tystiolaeth llun amgaeedig) | | |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddatblygu a chynnal rhaglen o archwiliadau, gan gynnwys anfon datganiad blynyddol at AGIC yn ôl y gofyn. | Rheoliad 16 | Cynhelir archwiliad parhaol parhaus. Mae pob claf yn cael holiadur boddhad ar ddiwedd y driniaeth. Caiff archwiliadau amrywiol eu cynnal drwy gydol y flwyddyn (bob chwe mis) a fydd yn cynnwys rheoli heintiau, glanweithdra a diogelwch mannau cyhoeddus, cydymffurfio | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a chadw'n gyfredol â phrotocolau rheoleiddio.<br><br>Rwyf wedi gosod nodyn atgoffa yn fy iPhone i gynnal archwiliadau.<br><br>(Tystiolaeth llun) | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnwys manylion pellach mewn perthynas ag archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r yng nghofnodion cleifion. PARHAU** | Rheoliad 20 | Rwyf wedi adnewyddu fy aelodaeth gyda'r gyfadran ymarferwyr deintyddol cyffredinol. Mae gennyf gopi o'r canllaw cyfeirio diweddaraf ar gyfer "Archwiliadau Clinigol a Chadw Cofnodion" sef y safon aur ar gyfer deintyddion.<br><br>Rwyf wedi trefnu gyda chydweithiwr lleol H (Deintydd) i adolygu ac archwilio fy nghofnod deintyddol bob chwe mis ac wedi gosod nodyn atgoffa ar fy iPhone ac yn fy nyddiadur phapur. | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig adolygu a diweddaru'r daflen wybodaeth i** | Rheoliad 7 | Rwyf wedi adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben a'u diweddaru yn ôl y gofyn. | Mr S Reynolds | Wedi'i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **gleifion a'r datganiad o ddiben a darparu copïau i AGIC.** | | (Copïau wedi'u hanfon at AGIC) | | |
| **Mae’n ofynnol i’r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i arddangos tystysgrif gofrestru AGIC y rheolwr cofrestredig mewn modd amlwg.** | Adran 28 Deddf Safonau Gofal 2000 | Tystysgrif y rheolwr cofrestredig bellach wedi'i harddangos yn y dderbynfa.<br><br>(Llun wedi'i amgáu) | Mr S Reynolds | Wedi’i gyflawni |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu a diwygio'r holl bolisïau fel eu bod yn adlewyrchu trefniadau'r practis yn gywir. Rhaid iddynt gynnwys y polisïau hynny sy'n ymwneud â diogelu, dadebru, cyfleoedd cyfartal, cyfarfodydd tîm a recriwtio.** | Rheoliad 8<br><br>Rheoliad 31 | Rwyf wedi adolygu a diweddaru pob polisi, gan gynnwys tynnu'r wybodaeth a nodwyd o'r polisi cyfle cyfartal. Rwyf wedi anfon polisi recriwtio personél newydd. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal ar ddydd Gwener olaf bob mis, mae’r templed ar ffeil.<br><br>(Darparwyd tystiolaeth) | Mr S Reynolds | Wedi’i gyflawni |
| **Mae’n ofynnol i’r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu am ddigwyddiadau yn unol â rheoliad 25 o Reoliadau** | Rheoliad 25 | Rwyf wedi lawrlwytho a darllen rheoliad 25 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rwy'n gwybod bod gennyf gopi ar ffeil. | Mr S Reynolds | Wedi’i gyflawni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.** | | (Llun) | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Mr S Reynolds**

**Swydd:** **Technegydd Deintyddol Clinigol**

**Dyddiad:** **6/7/2022**